4.87

# .. CERDD ..

I

# DIC EDWART RHISIART,

*O DRE' Y BALA,*

## Gan THOMAS EDWARDS (Twm o'r Nant).

HEB FOD YN ARGRAPHEDIG O'R BLAEN.

### GAIR EGLURHAOL.

*Meirion House, Llangollen, Awst 22ain, 1908.*

HYNAWS DDARLLENYDD,—Ar anogaeth amryw o gyfeillion yr wyf yn cyhoeddi y gân fechan hon. Credaf na bu yn argraphedig o'r blaen, ac y byddai yn resyn iddi fyned i ddifancoll. Yr oedd fy mam ac un neu ddau o'i theulu yn medru nifer o'r llinellau, ond yr unig un a glywais i yn eu hadrodd i gyd oedd ei brawd, y diweddar Mr. Robert Parry, Wenallt, Cwm Main, ardal sydd o fewn pum milldir i'r Bala, i gyfeiriad Dinmael. Ac o'i enau ef y cefais i y gerdd. Yr hyn a ddywedid am amgylchiadau ei chyfansoddiad oedd hyn: Fod Twm o'r Nant unwaith yn y Bala, a bod cwmni yn ei ddilyn yma ac acw hyd y dref oblegid ei ffraethineb. Yn eu plith yr oedd un Dic Edwart Rhisiart, un o oferwyr y lle, yr hwn a ddymunai ar y bardd wneud pill iddo ef. "Gwna bennill i mi," meddai yn barhäus. O'r diwedd, pan oeddynt yn nhafarndy y Goat, gwnaeth y ddau bennill hyn iddo. Yr oedd y diweddar Mr. Evan Davies, Crydd, Mill Street Square, Llangollen, gwr oedd yn enedigol o'r Bala, yn cofio Dic Edwart Rhisiart, a chlywais ef yn dywedud mai llygaid croesion oedd ganddo, at yr hyn y mae cyfeiriad yn y gân.—Yr oeddech, yn ddiffuant, R. E. ROBERTS.

PAN yn y Bala wrth y tân
  Daeth attaf gynan genad,
I wneuthur pennill eithaf hyll
  Rho'wd arnai 'r erchyll archiad,
Gan lencyn ffol o lyncwr ffein,
  Yn gerain, "peint o gwrw;"
A gwraig y tŷ 'n dyweud, "na chai Dic,
  Os dyna d'unig enw."
Nid adwaen i mo'r dyn di-ddawn
Wrth ei wel'd trwy'r mwg a'r goleu mawn,
A'i siol yn wag, a'i fol yn llawn,
  A di-ofal iawn o dafod;
Mae fel bwm-beili o ran ei ddull,
  Mewn buchedd hyll o bechod;
Mae'n elyn gras â'i galon gre',
A'i gefn yn union at y ne',
Yn anian drwstan yn y dre',
  Un ddull â chene drewllyd,
A'i gorphyn brau yn llau a llwm,
  'N un dragwm crychlwm, crachlyd.

Mae ganddo lygaid garw son
  O'i drwyn i fon ei fenydd,
Fel lampau tân neu lympau toes,
  A'u golwg yn groes i'w gilydd;
Mae yn llawn budredd, lygredd lol
  O'i siol i'w fol a'i falog,
Un wp â sarph, a'i wep yn sur,
  Ac araeth bur gynddeiriog.
Lodesi'r Bala, dewch yn glau,
Cyd-godwch i gyd i'w gyd-lanhâu,
I gneifio'i flew a ch'nafa'i lau
  Cyn myn'd i gaerau'r gweryd,
A dŵr y môr i'w olchi'n wŷn,
  Nid digon sy'n Llyn Tegid.
Mae'n ddoniol ras i ddynol-ryw
Gael treulio'u byd tra byddont byw,
I barchu dyn ac ofni Duw
  Drwy seibiant a byw sobor;
Nid coelio'r d——l i ganlyn Dic,
  I fyn'd dros y rhic yn rhagor.

— PRIS DWY GEINIOG. —

Hugh Jones, Argraphydd, Llangollen.]

P 394/16. X205221822 W19.391